Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Y Sger

**Canolfan Blant Corneli**
**Greenfield Terrace**
**Gogledd Corneli**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF33 4LW**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Cylch Meithrin y Sger

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin y Sger |
| Categori'r gofal a ddarperir | Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Wendy Rudd |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Ddim yn gymwys |
| Person â chyfrifoldeb | Wendy Rudd, Jayne Llewellyn |
| Nifer y lleoedd | 30 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 3 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 1 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | Dydd Llun - dydd Gwener 8.55 – 11.55<br>Dydd Llun - dydd Gwener 1.15 – 3.15 |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Gorffennaf 2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ebrill 2016 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 08/11/2022 |
| Mae'r holl blant yn dod o gartrefi Saesneg.<br>Caiff lleoedd y mwyafrif o'r plant sy'n mynychu eu cyllido. | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod pob aelod o'r staff bob amser yn rhyngweithio'n effeithiol â'r plant er mwyn helpu i feithrin sgiliau meddwl ac iaith y plant

A2 Datblygu systemau clir ar gyfer cynllunio ac arsylwi er mwyn llywio camau datblygu nesaf y plant yn effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Y prif ganfyddiadau

**Llesiant:**

Mae gan y plant lais cryf yn y lleoliad. Er enghraifft, maent yn cael y cyfle i fynegi eu barn am sut i ddatblygu'r ardal yn yr awyr agored. O ganlyniad, mae ganddynt Dŷ Bach Twt newydd erbyn hyn. Maent yn cyfrannu syniadau at y gwaith cynllunio ac yn cael cyfleoedd i gyfrannu at restrau siopa, fel y rhestr siopa ar gyfer y parti Calan Gaeaf. Mae'r plant yn penderfynu a ydynt am chwarae dan do neu yn yr awyr agored ac mae'r ffaith bod y plant yn gallu symud yn rhydd  yn hwyluso hyn.

Mae bron pob un o'r plant yn mynegi eu hunain yn eu ffyrdd eu hunain ac yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cael cyfleoedd a dewis ym mhob maes. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau gwneud marciau dan do ac yn yr awyr agored gan ddefnyddio amrywiaeth o baent, sialc, creonau a marcwyr lliw. Mae'r plant yn dewis yr hyn y maent am ymuno ag ef yn ystod amser cylch ac mae nifer ohonynt yn penderfynu canu ac arwyddo'n frwdfrydig. Mae'r plant yn falch o gael sticeri am ganu'n dda.

Mae bron pob un o'r plant yn teimlo'n gwbl gartrefol yn y lleoliad ac yn mwynhau ei fynychu. Mae ganddynt ymdeimlad cryf iawn o berthyn, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant. Mae bron pob un o'r plant yn hongian eu heitemau personol ar begiau unigol, sy'n cynnwys eu henw a llun ohonynt, ac yn mwynhau defnyddio marcwyr a chreonau i gopïo dros eu henwau ar eu taflenni enw unigol.

Mae gan bron bob un o'r plant gydberthnasau da â'r ymarferwyr a'u cyfoedion. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd, ac mae rhai ohonynt yn dechrau gwneud ffrindiau o fewn y grŵp. Er enghraifft, mae llawer o'r plant yn mwynhau cwblhau gwaith crefft ochr yn ochr â'i gilydd. Mae lleiafrif o'r plant yn chwarae â'i gilydd, yn enwedig yn yr awyr agored. Er enghraifft, mae grŵp yn mwynhau chwarae rôl yn yr awyr agored wrth iddynt redeg ar ôl y ‘ddraig’ gyda'i gilydd.

Mae'r plant yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Yn yr awyr agored, mae'r plant yn chwerthin wrth iddynt neidio yn y pyllau dŵr yn eu welintons.  Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau sgwrsio â'r ymarferwyr yn ystod amser byrbryd. Maent yn mwynhau dysgu geiriau Cymraeg ac yn teimlo'n falch wrth gael eu canmol am ddefnyddio'r iaith.

Mae bron pob un o'r plant yn dod yn annibynnol yn unol â'u hoedran a’u cam datblygu ac maent yn cael nifer o gyfleoedd. Er enghraifft, gall y rhan fwyaf o'r plant wisgo eu cotiau eu hunain, neu gyda rhywfaint o help. Mae llawer o'r plant yn rheoli eu sgiliau eu hunain, er enghraifft wrth gerdded ar drawstiau cydbwyso gwlyb neu chwarae ar feic cydbwyso. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn casglu eu cwpan a'u plât eu hunain yn ystod amser byrbryd. Mae un plentyn yn adnabod drosto'i hun fod angen sychu sedd car wlyb ac mae'n gofyn am dywel i sychu'r sedd cyn teithio yn y car.

**Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm dros hyn yw nad oedd digon o blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg a gyllidir yn rhywle arall yn bresennol ar adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb i blant unigol gael eu hadnabod.

**Gofal a datblygiad:**

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach yn eu gofal. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn effeithiol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Mae'r ymarferwyr wedi cael hyfforddiant addas ar amddiffyn plant ac maent yn gyfarwydd iawn â'r polisi amddiffyn plant ac yn hyderus i nodi risgiau i'r plant. Maent yn trafod materion amddiffyn plant fel rhan o'u cyfarfodydd ymarferwyr wythnosol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefn gadarn i gadw'r plant yn ddiogel. Mae ganddynt dystysgrifau cymorth cyntaf, diogelu a hylendid bwyd cyfredol. Maent yn rhoi eu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ar waith yn effeithiol ac yn cadw cofnodion manwl o unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau. Maent yn annog y plant i fwyta byrbryd iach a maethlon, sy'n cynnwys ffrwythau ffres, a cyn darparu llaeth a dŵr i'w yfed. Maent yn diwallu anghenion unigol y plant yn ddiwyd.

Mae'r ymarferwyr yn dangos esiampl dda ac yn ceisio defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol. Maent yn nodi anghenion unigol y plant ac yn addasu eu strategaethau'n briodol i gefnogi datblygiad a llesiant y plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bolisi ymddygiad y lleoliad ac maent yn ei roi ar waith yn effeithiol. Maent yn glir ynghylch eu disgwyliadau ac yn annog y plant mewn modd sensitif i ddefnyddio moesau da. Er enghraifft, maent yn eu hatgoffa i ddweud os gwelwch chi'n dda a diolch. Mae'r ymarferwyr yn canmol ac yn cydnabod ymddygiad da bob amser. Er enghraifft, maent yn canmol y plant yn Gymraeg a thrwy roi pawen lawen, ac yn rhoi sticeri iddynt.

Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Maent yn sylwgar iawn ac yn cefnogi'r plant i gymryd rhan ac i ddod yn fwy annibynnol. Maent yn creu ymdeimlad cryf o berthyn ac yn cymryd diddordeb ym mywyd pob un o'r plant. Maent yn defnyddio'r holl wybodaeth a ddarparwyd gan y rhieni, gan gynnwys y proffiliau un dudalen. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn ymestyn y rhyngweithio i feithrin sgiliau meddwl ac ieithyddol y plant. Yn ystod amser byrbryd, mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn canmol y plant am agor tanjerîn neu dorri banana. Mae hyn yn helpu i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau hanfodol y plant.

Mae'r ymarferwyr yn deall anghenion pob un o'r plant yn llawn. Maent yn archwilio cymhellion a diddordebau'r plant er mwyn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'u hanghenion unigol. Drwy wneud hynny, maent yn cynnwys llais ac anghenion pob plentyn wrth gynllunio. Maent wedi dechrau nodi patrymau ymddygiad mynych rhai o'r plant ac yn eu cysylltu â llwybrau datblygiadol.

Mae'r ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau'n llawn mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol ac maent yn nodi'r anghenion yn effeithiol ac yn brydlon. Maent yn gwneud atgyfeiriadau priodol at asiantaethau allanol ac yn cydweithio'n dda â nhw er mwyn ymateb i anghenion unigol y plant yn gyflym.

**Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol):**

Mae gan bron pob un o'r ymarferwyr ddealltwriaeth effeithiol o ddatblygiad y plant, ac maent yn gwerthfawrogi ac yn parchu pwysigrwydd dysgu drwy chwarae. Maent yn cynnig profiadau gwerthfawr yn yr amgylcheddau dan do ac awyr agored sy'n ymateb i chwilfrydedd naturiol y plant ac yn ei gefnogi. Mae'r ymarferwyr yn gosod y sylfeini ar gyfer agweddau cadarnhaol at ddysgu drwy brofiadau sy'n berthnasol ac yn ymateb i anghenion a diddordebau'r plant yn eu gofal.

Mae'r ymarferwyr yn meithrin ymdeimlad o berthyn a llesiant y plant drwy ddatblygu cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â'u rheini a gwerthfawrogi'r profiadau blaenorol y maent wedi'u cael gartref. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad cadarnhaol o gysylltiad i'r plant â'r lleoliad.  Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ac yn cynllunio profiadau cynhwysol sy'n cydnabod, yn gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo amrywiaeth anghenion y plant. Mae hyn yn sicrhau bod pob un o'r plant yn cael profiadau buddiol a chymorth i gymryd rhan lawn yn eu dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd chwarae gwerth chweil i'r plant feithrin eu sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol. Mae hyn yn meithrin eu hyder i gyfathrebu ar lafar ac ar ffurf ddieiriau ag eraill.

Mae'r mwyafrif o'r ymarferwyr yn ymyrryd yn synhwyrol yn ystod gweithgareddau ac yn modelu iaith a sgiliau mathemategol priodol, er enghraifft drwy atgyfnerthu'r hyn sy'n fawr ac yn fach wrth gymharu moch daear yn ystod gweithgaredd crefft. Weithiau, caiff cyfleoedd eu colli i atgyfnerthu sgiliau rhifedd, gyda gormod o ffocws ar adnabod rhifau. Mae'r ddarpariaeth i'r plant feithrin eu sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn briodol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i'r plant feithrin eu sgiliau echddygol bras. Maent yn annog y plant i gymryd risgiau a ystyriwyd ac i herio eu hunain yn gorfforol ar gyfarpar chwarae mawr, er enghraifft drwy ddringo'r ffrâm yn yr awyr agored yn annibynnol. Mae'r ymarferwyr yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd effeithiol i'r plant feithrin eu sgiliau echddygol manwl wrth chwarae. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd da o ran eu sgiliau gwneud marciau cynnar.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o asesiadau lleferydd ac iaith. Maent yn cofnodi arsylwadau boddhaol ar gyflawniadau'r plant yn  y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau hyn wedi'u datblygu'n ddigonol ac nid ydynt bob amser yn cael eu defnyddio'n ddigon trylwyr i gynllunio'r camau dysgu nesaf. Mae gwaith i gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru wedi dechrau.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd effeithiol i'r plant ddysgu am ddiwylliannau eraill, drwy flasu bwydydd yn ystod y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a thrwy adnoddau gwerthfawr yn eu hamgylchedd. Maent yn cynnig cyfleoedd priodol i godi ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru. Er enghraifft, ar Ddydd Gŵyl Dewi mae'r

plant yn bwyta cawl a chacenni cri. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o ymwelwyr ac ymweliadau lleol er mwyn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant.

**Yr Amgylchedd:**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel iawn ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac, o ganlyniad, maent yn hybu diogelwch a llesiant y plant yn effeithiol. Mae ganddynt drefniadau cadarn ar waith ar gyfer croesawu ymwelwyr i'r adeilad ac maent bob amser yn dilyn gweithdrefnau diogelu effeithiol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn casglu gwybodaeth fanwl am bwy sy'n casglu'r plant er mwyn sicrhau y caiff y manylion eu diweddaru os oes unrhyw newidiadau.

Mae'r arweinwyr yn diweddaru'r asesiadau risg pwrpasol yn rheolaidd yn eu rhoi ar waith yn effeithiol. Maent wedi dechrau ymgorffori asesiadau risg:budd ac maent yn caniatáu i'r plant gymryd risgiau pwyllog yr ystyrir eu bod yn addas i'w hoedran a'u cam datblygu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant a datblygiad y plant. Mae'r ymarferwyr hefyd yn cwblhau asesiadau risg dyddiol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn lleihau'r risgiau o dân. Mae'r asesiadau risgiau tân yn briodol ac mae'r ymarferwyr yn cynnal ymarferion tân rheolaidd iawn ac yn cadw cofnodion trefnus. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff yr holl wiriadau cynnal a chadw eu cynnal yn rheolaidd ac mae'r gwaith papur yn drefnus iawn. O ganlyniad, mae'r plant yn teimlo'n ddiogel iawn yn y lleoliad.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar iawn. Maent yn dathlu cyflawniadau'r plant drwy arddangos eu gwaith creadigol yn eu horielau lluniau unigol, sy'n cynnwys eu henw a llun ohonynt. Mae eu hamgylchedd yn cyfrannu at ymdeimlad o berthyn pob un o'r plant. Er enghraifft, mae gan bob un ohonynt eu peg eu hunain, gyda'u henw a llun ohonynt arno, i hongian eu heitemau personol fel bagiau a chotiau. Mae'r blwch hunangofrestru yn galluogi'r plant i nodi eu presenoldeb wrth gyrraedd ac yn sicrhau eu bod yn teimlo'n rhan o'r lleoliad o'r cychwyn.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod cynllun yr amgylchedd yn cynnig profiadau chwarae a dysgu cyfoethog i'r plant. Maent yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu yn cynnig cyfleoedd ysgogol i'r plant ddilyn eu llwybr eu hunain a defnyddio'r adnoddau'n annibynnol. Er enghraifft, yn yr ardal chwarae rôl, mae'r plant yn mwynhau coginio amrywiaeth o fwydydd ac mae'r ymarferwyr awyr agored wedi datblygu ardal llysiau a pherlysiau er mwyn i'r plant ddysgu am y broses o'u tyfu. Gall y plant gael gafael ar yr adnoddau'n hawdd gan eu bod yn cael eu storio ar lefel isel. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr wedi labelu'r blychau hyn.

Mae'r ardal awyr agored yn cynnig amgylchedd cyfoethog i'r plant ac maent yn cael cyfleoedd chwarae a dysgu da. Mae'r arweinwyr wedi ymrwymo i ddyfarniad cenedlaethol ac, o ganlyniad, mae'r ymarferwyr wedi cynnig cyfleoedd i'r plant dyfu blodau haul gartref ac i blannu a dyfrio blodau a llysiau yn yr ardal awyr agored. Mae'r ystafell synhwyraidd yn cynnig ardal dawel i'r plant ymlacio.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r arweinwyr wedi creu cymuned glos effeithiol sy'n sicrhau bod llesiant y plant, eu teuluoedd, a'r ymarferwyr yn flaenoriaeth gyson. Maent yn cynnig darpariaeth

gynhwysol lle mae'r plant, eu teuluoedd, a'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ac maent yn gweithio'n effeithiol gyda'r ymarferwyr i fodloni disgwyliadau pawb a darparu gofal o ansawdd uchel iddynt. Mae hyn yn hyrwyddo gwaith tîm buddiol ac awyrgylch teuluol cynnes yn y lleoliad. Mae trafodaethau a chyfarfodydd rheolaidd rhwng yr arweinwyr a'r ymarferwyr yn werthfawr o ran sicrhau darpariaeth o ansawdd da.

Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Mae gweithdrefnau recriwtio cadarn ar waith ac mae'r gwiriadau addasrwydd yn drefnus iawn. Mae gan yr arweinwyr weithdrefnau effeithiol ar waith i nodi cryfderau'r lleoliad ac unrhyw feysydd i'w gwella. Maent yn arwain drwy esiampl, gan sicrhau bod pob un o'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol i fyfyrio ar welliannau ym mhob rhan o'r lleoliad. Enghraifft ddiweddar o hyn yw'r ffordd y maent wedi addasu'r amgylchedd ar oedd yn rhy brysur ac wedi lleihau'r deunyddiau sydd ar gael er mwyn i'r plant allu gwneud dewisiadau a bod yn annibynnol. Mae hyn eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad y plant.

Mae'r lleoliad wedi meithrin cydberthynas fuddiol iawn â'r rhieni, ac maent yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a'r cyfathrebu rheolaidd am gynnydd y plant yn fawr. Mae'r plant yn gwerthfawrogi'r llwyfan cyfryngau cymdeithasol a rennir ac yn teimlo ei fod yn ddefnyddiol i weld yr hyn y mae eu plant yn ei wneud yn y lleoliad. Mae'r arweinwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i gyngor gan asiantaethau allanol, fel athro ymgynghorol y blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol, ac yn rhoi newidiadau a awgrymir ar waith yn llwyddiannus. Gwneir defnydd effeithiol o'r grantiau sydd ar gael,  er enghraifft yr adnoddau buddiol a brynwyd i wella'r amgylchedd awyr agored. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau corfforol, cymdeithasol a chyfathrebu'r plant. Ceir partneriaeth lwyddiannus rhwng yr ysgol a'r lleoliad hefyd. O ganlyniad, mae trefniadau da ar waith i sicrhau bod y plant yn pontio'n gadarnhaol i gam nesaf eu haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 16/01/2023